**Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes**

## Adolygiad Polisi Iaith Gymraeg mewn Addysg

**Cyflwyniad gan NASUWT Cymru i Bwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes y Cynulliad Cenedlaethol ar 6 Mawrth 2002.**

Mae NASUWT Cymru yn croesawu'r cyfle i annerch Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes y cynulliad Cenedlaethol ar ei 'Adolygiad Polisi Iaith Gymraeg mewn Addysg'.

Ar hyn o bryd mae'r Gymdeithas yn gwasanaethu dros 13,500 o aelodau yng Nghymru ym mhob un o'r sectorau addysg. Mae'r aelodaeth mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg ac ysgolion dwyieithog yn tyfu ac mae wedi mabwysiadu polisi dwyieithog cadarn o ran y gwasanaethau a ddarperir i aelodau.

Roedd yn fwriad i fabwysiadu polisi o'r fath. I'r NASUWT mae'r Gymraeg yn iaith fyw sydd ar waith bob dydd ac ar hyn o bryd mae'r Gymdeithas yn dosbarthu'r holl wybodaeth berthnasol i'w aelodau yng Nghymru yn ddwyieithog. Mae'n bolisi nad oes ei well gan unrhyw undeb llafur arall yng Nghymru ond yn bwysicach mae'n cael ei werthfawrogi gan yr aelodau Cymraeg a Di-gymraeg.

Wrth groesawu'r 'Adolygiad Polisi Iaith Gymraeg mewn Addysg' cyfredol y mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn ymgymryd ag ef mae'r Gymdeithas yn ymwybodol iawn o drafferthion yr iaith ar hyn o bryd.

1. **Meysydd o Bryder**

Yr Ysgolion yng Nghymru: Roedd Ystadegau Cyffredinol 2001 a gyhoeddwyd ym mis Hydref y llynedd gan Gyfarwyddiaeth Ystadegol y Cynulliad Cenedlaethol yn rhoi darlun digalon o ran y Gymraeg fel Iaith Gyntaf:

a. **Ysgolion Cynradd**

- O'r 221,544 o ddisgyblion ysgol gynradd 5 mlwydd oed a thros hynny dim ond 6.3% (13,911) sy'n siarad Cymraeg adref,

- Nid yw 9.8% (21,817) yn siarad Cymraeg adref ond maent yn gallu ei siarad yn rhugl,
- Mae 32.8% (72,591) yn siarad Cymraeg ond nid yn rhugl,

- Nid yw 51.1% (113,225) yn gallu siarad Cymraeg o gwbl,
- Mae yna 2,243 o ddosbarthiadau lle defnyddir y Gymraeg fel yr unig neu'r prif gyfrwng hyfforddi ac 8,705 o ddosbarthiadau lle dysgir y Gymraeg fel ail iaith
- Mewn 1,151 o'r 1,631 o ysgolion cynradd yng Nghymru mae llai nag 20% o'r disgyblion yn siarad Cymraeg,
- Dim ond mewn 211 o'r ysgolion hynny y mae dros 80% o'r disgyblion yn siarad Cymraeg.

a. **Ysgolion Uwchradd**

- O'r 186,081 o ddisgyblion ysgolion uwchradd yng ngrwpiau blynyddoedd 7-11 roedd 84.5% (157,300) yn cael gwersi Cymraeg fel ail iaith.
- Roedd 14% (26,135) yn cael gwersi Cymraeg fel iaith gyntaf

- O'r 35,698 o ddisgyblion ym Mlwyddyn 11 roedd 84.5% (157,300) yn cael gwersi Cymraeg fel ail iaith,
- Roedd 13.1% (4,688) yn cael gwersi Cymraeg fel iaith gyntaf.

O'r cyfanswm o 35,698 (100%) ym Mlwyddyn 11 roedd canlyniadau TGAU o ran y ganran sy'n llwyddo cael A*-C mewn Cymraeg (iaith gyntaf) o fewn yr awdurdodau hynny lle mae'r pwnc yn cael ei ddysgu mewn mwy nag un ysgol yr un mor ddigalon:

| | **Cyfanswm** | **Bechgyn** | **Merched** |
|---|---|---|---|

| | | | |
|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 34 | 25 | 44 |
| Gwynedd | 52 | 45 | 59 |
| Conwy | 10 | 6 | 14 |
| Sir Ddinbych | 12 | 10 | 14 |
| Powys | 7 | 5 | 8 |
| Ceredigion | 33 | 24 | 42 |
| Sir Benfro | 7 | 5 | 8 |
| Sir Gaerfyrddin | 20 | 14 | 25 |
| Rhondda, Cynon, Taf | 11 | 10 | 13 |
| Caerdydd | 6 | 5 | 7 |
| **CYMRU** | **9** | **7** | **10** |

1. **MEYSYDD O ARFER DA**

Mae NASUWT Cymru yn derbyn yn gyfan gwbl bod yna nifer o ddatblygiadau a chynlluniau y gellir eu datblygu ymhellach er lles yr iaith. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Ymrwymiad ar ran y Cynulliad Cenedlaethol a'r Awdurdodau Lleol,
- Ymrwymiad Bwrdd yr Iaith Gymraeg,
- Y gwaith a wneir gan ACCAC a CBAC,

- Categoreiddiad ysgolion cynradd mewn rhai ardaloedd yng Nghymru,
- Y gwaith a wneir gan Athrawon Bro,
- Cefnogaeth y rhieni hynny sydd wedi dangos ymrwymiad i'r iaith Gymraeg,
- Yr ymrwymiad a ddangosir gan yr athrawon hynny sy'n addysgu'r Gymraeg a thrwy gyfrwng y Gymraeg,
- Ymrwymiad y disgyblion i'r iaith yn enwedig y rheiny sy'n astudio'r Gymraeg fel ail iaith.

1. **MEYSYDD AR GYFER GWEITHREDU**

**YSGOLION CYNRADD**

- Mae'r ystadegau'n dangos bod 113,225 (tua 46%) o ddisgyblion ysgolion cynradd yn methu â siarad Cymraeg o gwbl. Ymddengys mai yng nghategori'r rhai 5-6 blwydd oed fyddai'r rhain ac na fyddent wedi cychwyn unrhyw wersi Cymraeg ffurfiol. Mae NASUWT Cymru yn ystyried nad yw'r sefyllfa'n dderbyniol ac yn awgrymu

  i) mai'r Gymraeg ddylai fod yn brif gyfrwng dysgu neu y dylai o leiaf gael ei chyflwyno ymhob ysgol/uned feithrin a gynhelir gan yr AALl,

  ii) y dylai pob ysgol/uned o'r fath gael eu categoreiddio ar lefel A, B, C gan gynnig y lefel briodol o ddarpariaeth.

- Ar hyn o bryd mae yna 440 o ysgolion cynradd lle defnyddir y Gymraeg fel yr unig neu'r prif gyfrwng hyfforddi. Mae 87 ysgol arall lle defnyddir y Gymraeg fel cyfrwng addysgu am ran o'r cwricwlwm a 1,104 o ysgolion lle dysgir y Gymraeg fel ail iaith yn unig.

  Mewn llawer rhan o Gymru y dewis i blant ysgolion cynradd yw naill ai ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg neu ysgol lle mae'r Gymraeg ond yn cael ei haddysgu fel ail iaith.

  Mae NASUWT Cymru yn dadlau y dylid gweithredu mesurau i gynyddu nifer yr ysgolion lle defnyddir y Gymraeg fel cyfrwng i addysgu rhan o'r cwricwlwm. Yn y lle cyntaf, dylid targedu'r ysgolion hynny yn yr ardaloedd mwyaf trefol gyda gwell darpariaeth ar gyfer Addysg Gorfforol, Cerddoriaeth, Dylunio a Thechnoleg a Chelf trwy gyfrwng y Gymraeg.

- Gwelwyd bod y cynllun ‘Athrawon Bro’ a ariennir gan y Cynulliad Cenedlaethol trwy Fwrdd yr Iaith Gymraeg wedi bod yn llwyddiannus iawn. Mae NASUWT Cymru yn cynnig y dylid buddsoddi llawer mwy yn y cynllun hyd at lefel lle gall pob ysgol gynradd gael cefnogaeth o’r fath heb orfod defnyddio’i chyllid ei hun.

- Mewn rhai ardaloedd o Gymru Canolfannau Iaith, sy’n cael eu cynnal gan ‘Athrawon Bro’ yn aml, wedi bod yn llwyddiannus wrth ddarparu cyrsiau dwys i fewnfudwyr di-gymraeg. Mae NASUWT Cymru o’r farn bod angen mwy o’r rhain.

- Mae gan Gymru garfan ymroddedig o athrawon gyda llawer ohonynt wedi talu o’u poced eu hunain i ddysgu’r iaith Gymraeg. Dylid cymeradwyo’r rhain. Mae NASUWT Cymru yn cynnig y dylai dysgu’r iaith yn ogystal â gwella gwybodaeth sylfaenol er mwyn cael gwell defnydd yn yr ysgol a’r ystafell ddosbarth fod yn flaenoriaeth i Brosiect Datblygiad Proffesiynol Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru, a ariennir gan y Cynulliad Cenedlaethol. Rhagwelir yn ystod 2002-03 y bydd y Cyngor yn gallu ariannu rhyw 1650 o Fwrsariaethau Datblygiad Proffesiynol, 600 o Ymweliadau a Theithiau Cyfnewid, 150 o Ysgoloriaethau Ymchwil Athrawon, 300 o gynlluniau Blwyddyn Rydd i Athrawon a 50 o Rwydweithiau Proffesiynol.

- Mae angen mynd i’r afael â darpariaeth Anghenion Addysgol Arbennig er mwyn sicrhau bod darpariaeth o’r fath ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg lle mae ei hangen. Mae NASUWT Cymru o’r farn y dylai’r Cynulliad Cenedlaethol fynd i’r afael â’r mater ar frys.

**YSGOLION UWCHRADD**

- Ar hyn o bryd mae’r Gymraeg yn orfodol i bob disgybl hyd at ddiwedd Cyfnod Allweddol 4. Mae NASUWT Cymru yn gofyn y cwestiwn a yw gorfodaeth o’r fath o fewn rhai ardaloedd yng Nghymru yn ogystal ag ar gyfer rhai categorïau o ddisgyblion yn fuddsoddiad da. Fydd yr iaith Gymraeg yn goroesi trwy orfodaeth ac a yw’r polisi ond yn gyfrwng i ennyn drwgdeimlad ymhlith rhai pob ifanc gan greu teimladau gwrth-gymreig cryf?

- Mae ymchwil gan NASUWT Cymru yn dangos bod lefel uchel o anniddigrwydd ymysg y disgyblion hynny sy’n astudio’r Gymraeg fel ail iaith yng Nghyfnod Allweddol 3 a 4. Mae yna enghreifftiau hefyd o drosiant staff uchel o fewn y pwnc yn ogystal â defnyddio athrawon nad ydynt yn arbenigwyr.

- Mae Adroddiad yr ‘Adolygiad Pum Mlynedd o Safonau’ cyfredol gan ACCAC, o ran y Gymraeg fel Ail Iaith 16+ yn dangos:

  ***‘ Ar sail y dystiolaeth o’r arholiadau a archwiliwyd roedd gostyngiad sylweddol***

***mewn safonau perfformiad ymgeiswyr Gradd C ym mhob sgil.***

***'Roedd y safon ddisgwyliedig ar gyfer ymgeiswyr Gradd A yn gyson dros y cyfnod yn y gwaith ysgrifennu, ond bu rhywfaint o ddirywiad yn achos gwrando a deall, a bu dirywiad yn achos darllen.***

***'Roedd dirywiad cyson yn ansawdd iaith ymgeiswyr dros gyfnod yr adolygiad.***

O ganlyniad mae NASUWT Cymru yn gofyn y cwestiwn, a fyddai'n well defnyddio'r buddsoddiad sylweddol mewn Cymraeg fel Ail Iaith o fewn CA4 yn y sector meithrin/ cynradd? Os yw'r polisi cyfredol i barhau, fodd bynnag, yna mae'r Gymdeithas yn bendant o'r farn y dylai'r pwyslais fod ar sgiliau sgwrsio/llafar yn hytrach nag ar ddarllen ac ysgrifennu.

- Problem sy'n wynebu llawer o ysgolion dwyieithog, fel sy'n amlwg yn adroddiad cyfredol Estyn yw bod ***'llawer o ddisgyblion sydd wedi cael eu haddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg yn yr ysgolion cynradd yn newid i'r Saesneg ar gyfer eu haddysg uwchradd'.*** Mae hyn o ganlyniad i bwysau gan rieni a'u hawl i ddewis ysgol eu plant. Mae NASUWT Cymru yn cynnig bod angen ymchwilio i ba raddau y mae hyn yn digwydd ledled Cymru gyda'r Cynulliad Cenedlaethol yn rhoi canllawiau cadarn ar ôl gwneud ymchwil o'r fath.

**ADDYSG ÔL-16**

- Tynnir sylw at amrywiol gyfeiriadau a wnaed yn adroddiad Estyn at ddarpariaeth ôl-16:

  ***'Mae rhai ysgolion yn ei chael yn anodd i barhau i addysgu pynciau trwy gyfrwng y Gymraeg yn y chweched dosbarth oherwydd, yn aml, nid oes digon o fyfyrwyr i'w gwneud yn economaidd i gynnal cwrs trwy gyfrwng y Gymareg.***

  ***'Mewn addysg bellach a hyfforddiant yn y gwaith araf yw'r cynnydd i ymestyn gwaith yn y Gymraeg ac yn ddwyieithog ac i ddiwallu anghenion dwyieithog cyflogwyr'.***

  ***'Yn gyffredinol, nid oes digon o gyfle i ddysgwyr sydd wedi siarad Cymraeg mewn ysgolion uwchradd i barhau â'u haddysg yn ddwyieithog neu trwy gyfrwng y Gymraeg'.***

  ***'Mewn llawer o bynciau nid oes gwerslyfrau yn y Gymraeg'.***

***'Nid yw digon o'r cyrff dyfarnu a'r sefydliadau hyfforddi cenedlaethol yn argraffu eu meysydd llafur a'u deunyddiau asesu trwy gyfrwng y Gymraeg'.***

***'Mae llai o gyfle i fyfyrwyr sefyll eu profion sgiliau allweddol yn y Gymraeg nag yn Saesneg'.***

Mae NASUWT Cymru yn cytuno bod hyn yn sefyllfa gwbl annerbyniol. O ganlyniad, mae'n galw ar y Cynulliad Cenedlaethol ac ELWa i fynd i'r afael â'r diffygion a nodwyd o fewn adroddiad Estyn ac i sicrhau bod y Gymraeg yn cael darpariaeth gyfwerth o fewn darpariaeth ôl-16.

- Tra bod NASUWT Cymru wedi cael ei chalonogi gan agwedd gynhwysol ELWa at ddwyieithrwydd mae yn pryderu rhywfaint am ddyfodol darpariaeth ddwyieithog a chyfrwng Cymraeg yn y chweched dosbarth yn enwedig yn ardaloedd mwyaf gwledig Cymru. Mae NASUWT Cymru yn galw ar y Cynulliad Cenedlaethol i gychwyn trafodaeth gydag ELWa er mwyn diogelu darpariaeth o'r fath.

**DARPARIAETH TGCh**

- Mae NASUWT Cymru yn cydnabod buddsoddiad parhaus y Cynulliad Cenedlaethol mewn TGCh. Fodd bynnag, er mwyn gwella darpariaeth yr iaith Gymraeg a chyfrwng Cymraeg ymhellach mae'n dadlau y dylid:

i. sefydlu Grid Cenedlaethol ar gyfer Dysgu i Gymru a fyddai'n hollol ddwyieithog o'r cychwyn cyntaf. Dylai'r 'Grid' gael ei lunio yn y fath ffordd fel y bydd athrawon yn teimlo'n gyfforddus â'r cynnwys ar unwaith,
ii. parhau i ymestyn darpariaeth band llydan i ysgolion a cholegau a fydd yn galluogi ysgolion i 'siarad â'i gilydd'. Mae'n hanfodol rhannu mwy o arfer da er dyfodol yr iaith Gymraeg.
iii. yn yr un modd ag y mae 'Pen i Ben' yn ddatblygiad sy'n cael ei groesawu ar gyfer penaethiaid newydd gymhwyso dylid sefydlu gwefan debyg i ysgolion gyfrwng Cymraeg a rhai dwyieithog gan fod llawer yn gweithio'n ynysig ar hyn o bryd.

**ADDYSG OEDOLION**

Mewn cydweithrediad ag ELWa mae angen i'r Cynulliad Cenedlaethol fabwysiadu dull mwy cadarn i ddarparu cyfleoedd i oedolion ddysgu Cymraeg. Ni ddylai dysgu'r iaith gael ei ystyried yn hobi dosbarth canol ac elitaidd ond fel rhywbeth sy'n hawl i bob unigolyn yng Nghymru. I'r perwyl hwn mae NASUWT Cymru yn galw:

- ar bob un o’r aelodau hynny yn y Cynulliad Cenedlaethol sy’n methu â siarad Cymraeg i arwain y genedl trwy esiampl a chofrestru ar gwrs dwys a fyddai’n sicrhau bod y rhan fwyaf o’r dadleuon mewn pwyllgorau a sesiynau llawn yn cael eu cynnal trwy gyfrwng y Gymraeg cyn pen dwy flynedd. Byddai’r Gymdeithas hefyd am longyfarch pawb a fyddai wedi derbyn yr her ac sy’n arwain trwy esiampl,

- ar y Cynulliad Cenedlaethol i ddilyn arweiniad yr Adran Addysg a Sgiliau a gyhoeddodd y cwricwlwm cenedlaethol cyntaf yn ddiweddar ar gyfer pobl nad yw Saesneg yn iaith gyntaf iddynt. Byddai cwricwlwm tebyg ar gyfer yr iaith Gymraeg yn mynd gryn ffordd tuag at wella sgiliau ieithyddol miloedd o bobl sydd heb fawr o wybodaeth am yr iaith ar hyn o bryd.

- am sefydlu rhwydwaith o ganolfannau addysgu’r iaith Gymraeg ledled Cymru yn seiliedig ar ‘ysgolion cylchynol’ yr ail ganrif ar bymtheg a’r ddeunawfed ganrif wedi’u staffio gan diwtoriaid amser llawn. Crëwyd cenedl lythrennog a allai ddarllen ac ysgrifennu gan yr ‘ysgolion cylchynol’ gwreiddiol a gallai’r ysgolion ‘modern’ greu cenedl o siaradwyr Cymraeg.

NASUWT Cymru

Chwefror 2002